**Pwyllgor Diwylliant CC 21-02 p6 Atodiad 3**

Dyddiad 18 Rhagfyr 2002

Amser 9.15am – 12.30am

Lleoliad Ystafell Bwyllgora 1, Cynnuliad Cenedlaethol Cymru

W021284-Cu

11 Rhagfyr 2002

**Y GWEINIDOG DIWYLLIANT YN RHOI CYMORTH**

**I GYMRY PATAGONIA**

Heddiw, cyhoeddodd Jenny Randerson, y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg y bydd y Cynulliad yn ariannu prosiect i gefnogi'r Gymraeg a’r diwylliant Cymreig ym Mhatagonia am dair blynedd arall.

Cyhoeddodd y Gweinidog becyn gwerth £105,000 am y tair blynedd nesaf. Bydd yr arian yn ariannu athrawon o Gymru i fynd ar secondiad i Batagonia; hyfforddi tiwtoriaid Cymraeg lleol a datblygu gweithgareddau diwylliannol lleol.

Y Cyngor Prydeinig fydd yn rheoli'r arian ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, ar y cyd â Chymdeithas Cymry-Ariannin a Chanolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion Prifysgol Caerdydd.

Dywedodd Jenny Randerson, "Mae'r Cynulliad yn awyddus i ddatblygu proffil rhyngwladol Cymru ac mae'r cysylltiad rhwng Cymru a Phatagonia yn cyfoethogi'r ddwy wlad. Mae cymunedau Patagonia yn agwedd unigryw ar safle a rôl Cymru yn y byd.

"Y bwriad yn 2000, pan gyhoeddwyd yr arian ar gyfer y prosiect tair blynedd

cyfredol, oedd y byddai'r prosiect yn gallu cynnal ei hun ar ôl 2003. Ond, oherwydd sefyllfa economaidd Chubut, nid yw hynny'n bosibl. Mae'r prosiect felly yn haeddu cefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru.

"Bydd y prosiect hwn yn parhau i gynnig cyfleoedd gwych i athrawon o Gymru i feithrin profiad a sgiliau mewn gwlad arall."

**NODYN AT OLYGYDDION**

Mae rhaglen gymorth gyfredol i gefnogi'r Gymraeg a diwylliant Cymreig Patagonia (gwerth £130,000) yn dod i ben ar Mawrth 2003. Mae'r rhaglen hon wedi bod yn rhedeg ers 1997.

Ymsefydlodd y Cymry cyntaf yn nhalaith Chubut ym Mhatagonia (Ariannin) ym 1865. Bydd y gweithgareddau a noddir gan y Cynulliad yn helpu cymunedau yn Nyffryn Chubut (gan gynnwys y Gaiman a Threlew) a'r rheini yn yr Andes (fel Esquel a Threvelin).

Y bwriad yn 2000, pan gyhoeddwyd yr arian ar gyfer y prosiect tair blynedd gyfredol, oedd y byddai'r prosiect yn gallu cynnal ei hun ar ôl 2003. Ond, oherwydd sefyllfa economaidd Chubut, nid yw hynny'n bosibl. Mae'r prosiect felly yn haeddu cefnogaeth Cynulliad Cymru.